**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion o gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhaliwyd ar 17eg Tachwedd 2008 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10 y bore.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cyngh T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh S Frobisher (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cyngh E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyngh W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngh M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

YN ARSYLWI:

| | |
|---|---|
| Cyngh D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh R Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Dirprwy Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); B Davies (Dirprwy Swyddog Monitro); C Hanks (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Simmons (Prif Swyddog Cynorthwyol, Sefydliad a Datblygu Pobl); B Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth) ; S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistrefi Sirol Conwy); C Dingle (Rheolwr Cyllid); Sian Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelod).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Cyngh G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngh T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyngh G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngh J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Everett | Clerc a Swyddog Monitro |
| P S Claydon | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Sicrwydd Gweithredol) |
| D Docx | Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau) |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau fod dyn oedrannus wedi colli ei fywyd yn ei gartref yn Llangollen yn oriau mân y bore. Mae archwiliad a dadansoddiad llawn ar fynd i ddarganfod achos y tân.

2 COFNODION O GYFARFOD GYNHALIWYD AR 22AIN MEDI 2008

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Medi 2008 fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.

3 MATERION SY'N CODI

3.1 5.2 – Archwiliad o ddatganiadau ariannol 2007/08 (Swyddfa Archwilio Cymru) a llythyr o gynrychioliad – fe gadarnhaodd y Trysorydd fod y cyfrifon wedi cael eu harwyddo heb gymhwyster. Fodd bynnag, nid yw'r mater o ddarpariaeth wedi ei ddatrys eto. Roedd y mater hwn wedi cael ei godi gan y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân mewn cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar 14eg o Hydref ac roedd y Gweinidog wedi nodi pryderon yr Awdurdod.

3.2 11.1 (ii) – fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod y cyfarfod cychwynnol o'r gweithgor swyddogion wrth gefn ac adolygu risg wedi cael ei gynnal ar ddydd Llun 10fed Tachwedd; roedd wedi bod yn gyfarfod cynhyrchiol a chalonogol.

3.3 12.7 – Prosiect Fireguard – fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau ei fod wedi derbyn llythyr yn cadarnhau nad oedd y Prosiect Fireguard yn symud y ei flaen mwyach disgyn oherwydd nad oedd digon o ddiddordeb gan Awdurdodau Tân ac Achub ar draws Lloegr a Chymru.

4 OPSIYNAU'R GYLLIDEB AR GYFER 2009/10

4.1 Cyflwynwyd y papur i adlewyrchu cais yr Aelodau i fod yn rhan o'r gyllideb ddrafft yn hytrach na derbyn adroddiad am gymeradwyaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr.

4.2 Mae tabl A yn yr adroddiad yn disgrifio'r pwysau hysbys arwyddocaol yn y gyllideb ar gyfer 2009/10 a thu hwnt. Nodwyd fod yn amhosib osgoi rhai pwysau ond ei bod hi'n bosib gohirio rhai pwysau eraill neu gwrdd â hwy gyda dulliau eraill; fodd bynnag, efallai na fyddan nhw'n effeithio ar gyllideb 2009/10.

4.3 Fe eglurodd y Trysorydd yr ymgymerwyd ag ailasesiad o gostau gweithwyr i geisio adlewyrchu'r pwysau sy'n debygol o ddod oherwydd yr Ystafell Reoli a TGCh.

4.4 Nodwyd y gellir gwneud mwy o waith o amgylch chwyddiant yn ddibynnol ar bris tanwydd a nwyddau a gwasanaethau eraill, sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau yn yr hinsawdd economaidd. Gwnaed cynrychioliad i PWLB, gan ofyn am laciad ar dalu benthyciadau yn ôl.

4.5 Nododd aelodau y byddan nhw'n edrych am gynnydd yn y gyllideb o rhwng 3% a 3.5% a darpariaeth gyllideb realistig ar gyfer y dyfarniad cyflog, heb danategu o'r Darpariaethau os yn bosib.

4.6 Fe gadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai'n adolygu rhaglen rheoli ased 5 mlynedd i weld os gellir gwneud addasiadau i roi llai o bwysau ar y gyllideb.

4.7 Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod yn gofyn am arian ychwanegol gan y Cynulliad i gefnogi archwiliadau diogelwch tân cymunedol, cadarnhawyd fod y cynulliad wedi bod yn effeithiol wrth roi arian i'r ardal yma o waith ac yn talu am y larymau mwg. Mae'r Awdurdod yn gwneud ceisiadau rheolaidd am arian ychwanegol hefyd.

4.8 Bydd y Trysorydd yn anfon e-bost i'r Adran Gyllid yn amlinellu'r pwysau sy'n wynebu Gogledd Cymru. Bydd hefyd yn cynnwys sylwadau am agweddau diogelwch tân cymunedol.

4.9 **PENDERFYNWYD nodi'r pwysau fydd yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub â'r risg sydd ynghlwm i bob tybiaeth gynllunio.**

5 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) ARFAETHEDIG

5.1 Cyflwynwyd y papur i hysbysu aelodau o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i gyflwyno ymateb drafft gan yr Awdurdod i'r cwestiynau ymgynghori godwyd gan Bwyllgor y Cynulliad. Bydd y Mesur yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2009.

5.2 Diolchodd yr aelodau i'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol am yr adroddiad ac am ddrafftio'r ymateb. Cytunwyd i ddiwygio'r ymateb i gynnwys pryderon Aelodau am gostau ychwanegol a'r costau cudd posib fyddai'n codi o ganlyniad i'r Mesur.

5.3 Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Aelodau fod Prif Swyddog Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, Richard Smith, yn cynrychioli'r tri Awdurdod Tân ac Achub Cymreig i drafod y Mesur ymhellach mewn Pwyllgor Cynulliad. Byddai'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yn cysylltu gyda Mr Smith ac yn mynd gydag ef i'r cyfarfod o bosib.

5.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi cynnwys yr adroddiad; a**

**(ii) chymeradwyo'r ymateb drafft i gwestiynau'r ymgynghoriad yn amodol ar ychwanegu paragraff ar gostau.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cyflwynwyd y papur i roi gwybodaeth i Aelodau am weithgaredd a pherfformiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, o'r cyfnod rhwng 1af Ebrill 2008 hyd 30ain Medi 2008. Arweiniodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol yr Aelodau drwy'r adroddiad.

6.2 Nodwyd fod y nifer o alwadau roedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn derbyn yn ymwneud â gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd wedi cynyddu nawr fod y Gwasanaeth Ambiwlans wedi cytuno i drosglwyddo'r wybodaeth oeddynt yn derbyn.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro.**

RHAN II

7 TREFNIADAU I APWYNTIO SWYDD Y DIRPRWY BRIF SWYDDOG TÂN/DIRPRWY SWYDDOG TÂN

7.1 Fe atgoffodd y Prif Swyddog Tân Aelodau fod trefniadau dros dro yn eu lle ar gyfer swydd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ers ymadawiad Chris Enness ym mis Mai.

7.2 Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, roedd hysbyseb wedi cael ei osod yn gynnar ym mis Tachwedd yn gofyn am fynegiannau o ddiddordeb am becyn cais. Nodwyd fod yr hysbyseb yn gofyn am Ddirprwy Brif Swyddog Tân **neu** Ddirprwy Swyddog Tân. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai'r swydd wedi ei chyfyngu i rywun gyda chefndir diffoddwr tân gweithredol.

7.3 Roedd amserlen y broses recriwtio yn dynn er mwyn i'r Awdurdod gadarnhau'r apwyntiad yn ei gyfarfod ar 15fed Rhagfyr. Felly, dyddiad cau derbyn ceisiadau yw 21ain Tachwedd a gofynnir i ymgeiswyr gwblhau prawf seicometreg. Wedi hyn, bydd rhestr fer o ymgeiswyr addas yn digwydd, a bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal Dydd Mawrth 9fed Rhagfyr am 11 y bore.

7.4 Roedd aelodau yn teimlo y dylent fod wedi derbyn papur oherwydd ffurfioldeb yr apwyntiad. Nododd y swyddogion y cais ar gyfer y dyfodol.

7.5 **PENDERFYNWYD fod un Aelod o bob Awdurdod Lleol ar y panel cyfweld fel a ganlyn:**

Gwynedd – Cyngh T Roberts
Sir Ddinbych – Cyngh S Frobisher
Conwy – Cyngh M Thomas
Sir y Fflint – Cyngh B Dunn
Wrecsam – Cyngh P Jeffares
Ynys Môn – Cyngh A M Jones

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd: T.Roberts** **Dyddiedig: 02/02/09**